BRIFF POLISI CLWSTWR RHIF 1

# EFFAITH (BOSIBL) BREXIT AR FUSNESAU CREADIGOL

GOBLYGIADAU AR GYFER POLISÏAU A BUSNESAU YNG NGHYMRU

Marlen Komorowski a Justin Lewis
Mehefin 2020

## YNGLŶN Â'R ADRODDIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o raglen Clwstwr, prosiect pum mlynedd sydd â'r nod o roi arloesi wrth wraidd y broses o gynhyrchu cyfryngau yn Ne Cymru, gan symud sector sgrin llewyrchus Caerdydd o gryfder at arweinyddiaeth. Mae Clwstwr yn awyddus i adeiladu ar lwyddiant De Cymru o ran creu cynnwys creadigol drwy roi ymchwil a datblygu wrth wraidd y broses gynhyrchu.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â:


CLWSTWR

Neuadd y Ddinas
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3ND
Ffôn: 02922 511434
E-bost: clwstwrcreadigol@caerdydd.ac.uk
Twitter: @ClwstwrCreu
www.clwstwr.org.uk

# Cyflwyniad

Ar 31 Ionawr 2020, gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae natur y gydberthynas yn y dyfodol yn cael ei thrafod ar hyn o bryd. **Mae eisoes yn glir bod Brexit yn ddigwyddiad gwleidyddol digynsail â goblygiadau economaidd sylweddol o bosibl.** Er y bu llawer o drafodaeth ynglŷn â sectorau penodol yng Nghymru (fel pysgodfeydd), nid oes cymaint o sylw wedi'i roi i effaith Brexit ar y diwydiannau creadigol – sector economaidd allweddol sy'n tyfu lle y mae gan Gymru gryfder sylweddol .

**Mae'r diwydiannau creadigol wedi dod yn beiriant ar gyfer twf i Gymru.** Yn 2017, awgrymodd *Adolygiad o'r Diwydiannau Creadigol* fod Caerdydd wedi dod yn un o ganolfannau cynhyrchu cyfryngau mwyaf y DU y tu allan i Lundain, wedi'i chefnogi gan ddiwydiant cynhyrchu teledu annibynnol cryf. [1] Yn 2018, disgrifiodd Nesta Gaerdydd fel dinas sy'n profi twf creadigol cyflym. [2] Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r sector diwydiannau creadigol fel sector blaenoriaeth allweddol, oherwydd ei bwysigrwydd cynyddol i economi Cymru a'i rôl wrth hyrwyddo hunaniaeth, talent a straeon Cymru.[3]

Ar ôl cyhoeddi Government's EU negotiation mandate ar 27 Chwefror 2020, ni fydd y DU yn ceisio cymryd rhan yn rhaglen nesaf Ewrop Greadigol, a fydd yn dechrau ym mis Ionawr 2021. Bydd gan hyn effeithiau andwyol ar Gymru, sydd wedi cael budd sylweddol o gyllid yr UE. [3]

[1] Gweler https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/649980/Independent_Review_of_the_Creative_Industries.pdf
[2] Gweler https://media.nesta.org.uk/documents/creative_nation-2018.pdf
[3] Llywodraeth Cymru (2016). Ystadegau sector blaenoriaeth. Ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/priority-sector-statistics-2016-new-gva-data-2014.pdf

Mae Cymru'n arbennig o ddibynnol ar fasnach â'r UE – yn fwy nag unrhyw wlad neu ranbarth arall.[4] Mae diwydiannau creadigol Cymru yn dibynnu ar gyllid, masnach a'r rhyddid i symud i'r/o'r UE. Mae papur polisi Llywodraeth Cymru *Diogelu Dyfodol Cymru* yn hyrwyddo camau i gydymffurfio'n agos â'r UE ac yn dadlau, er enghraifft, y dylai Cymru barhau i gael mynediad at gyllid Ewropeaidd ar gyfer y diwydiannu creadigol.[5]

> Mae Sefydliad Ffilm Prydain wedi cyfrifo y cafodd prosiectau diwydiannau sgrin Cymru £24.9 miliwn o gyllid yr UE rhwng 2007 a 2017; 10% o gyfanswm y DU.[1]

Yn dilyn ei ymchwiliad i *Effaith Brexit ar y sector celfyddydau, diwydiannau creadigol, treftadaeth a'r iaith Gymraeg* yn 2018, awgrymodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru y bydd busnesau creadigol yng Nghymru yn wynebu nifer o anawsterau ar ôl Brexit. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid uniongyrchol ac anuniongyrchol, mynediad at sgiliau a rhyddid i symud, teithio yn Ewrop, mynediad at y farchnad sengl a'r system rheoleiddio sengl, a mynediad at rwydweithiau rhyngwladol.[6]

Fodd bynnag, nid dyma'r dull y mae Llywodraeth y DU yn ei gymryd ar hyn o bryd, sydd wedi nodi na fydd yn ystyried y rhaglen Ewrop Greadigol yn ei thrafodaethau. [7] Amser a ddengys p'un a fydd effaith negyddol COVID-19 yn newid y dull hwn – gan ychwanegu haen bellach o risg economaidd at economi sydd newydd ddioddef ergyd enfawr.

Yn wir, yng nghyd-destun yr ansefydlogrwydd a achoswyd gan COVID-19, mae pryderon ynghylch Brexit – yn enwedig y sectorau creadigol y mae COVID-19 wedi effeithio'n enbyd arnynt – wedi cael eu gwthio i'r neilltu. Ac eto, mae canlyniad trafodaethau Brexit yn parhau i fod yn fater allweddol i

---

[4]Tŷ'r Cyffredin (2019). Statistics on UK-EU trade. Ar gael yn https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-7851/
[5]Llywodraeth Cymru (2017). Papur Gwyn: Diogelu Dyfodol Cymru. Ar gael yn https://llyw.cymru/diogelu-dyfodol-cymru
[6]Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018). Brexit, sector y celfyddydau, diwydiannau creadigol, treftadaeth a'r Gymraeg. Ar gael ynhttps://busnes.senedd.cymru/documents/s81782/Adroddiad%20Effaith%20Brexit%20ar%20y%20sector%20celfyddydau%20diwydiannau%20creadigol%20treftadaeth%20ar%20iaith%20Gymr.pdf
[7] Gov.uk (2020). Our approach to the Future Relationship with the EU. Ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/our-approach-to-the-future-relationship-with-the-eu

bolisi cyhoeddus ac mae'n debygol y bydd yn dylanwadu ar allu'r busnesau creadigol i adfer a ffynnu.

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r ffordd y mae amrywiaeth o fusnesau creadigol yn gweld Brexit – eu gobeithion a'u hofnau, yn ogystal â rhai o'r goblygiadau busnes ymarferol.

Rydym yn canolbwyntio ar Gymru – er, nid yw ffurf y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn annodweddiadol o'r DU gyfan, felly gall ein canfyddiadau ddangos tueddiadau ehangach y DU.

Mae'r astudiaeth hon ar effaith bosibl Brexit ar fusnesau creadigol Cymru yn ein galluogi i ddeall y materion allweddol yn well a gwneud argymhellion ar gyfer busnesau a llunwyr polisïau yn y trafodaethau masnachu presennol.

# Methodoleg

**Gwnaethom holi 244 o fusnesau creadigol yng Nghymru rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019.** Prif ddiben yr arolwg oedd rhoi cipolwg economaidd ar y sector creadigol yng Nghymru, gan archwilio gallu i arloesi, cyflogaeth a throsiant,  Oherwydd ei effaith bosibl, gwnaethom gynnwys cwestiynau am Brexit, ac mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr ymatebion i'r cwestiynau hynny (byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau'r arolwg cyfan yn hwyrach eleni).

Roedd yr arolwg yn defnyddio cwestiynau penagored a ddosbarthwyd i fusnesau a gweithwyr llawrydd yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru (gan ddefnyddio meddalwedd Qualtrics).  Gwnaethom ddadansoddi'r ymatebion a gasglwyd gan ddefnyddio meddalwedd dadansoddi testun awtomataidd, clystyru testun, dosbarthiad testun, echdynnu pynciau a chategoreiddio dwfn (gan ddefnyddio meddalwedd MeaningCloud), yn ogystal â chodio'r testun ein hunain.

| | |
|---|---|
| Caerdydd | 47.5% |
| Gogledd, Canolbarth Cymru | 7.8% |
| Gweddill Dinas-Ranbarth Caerdydd | 35.7% |
| Gweddill De Cymru | 9.0% |

| | | Cyfanswm | Ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth | Cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol | Arall | TG, meddalwedd a gwasnaethau cyfrifiadurol | Cyhoeddi (e.e. papur newydd, cylchgrawn) | Hysbysebu a marchnata | Dylunio a ffasiwn dylunwyr | Crefftau | Amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd | Pensaerniaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwmni | Busnes Mawr | 0.8% | 0.4% | | | | | | | | | 0.4% |
| | Busnes Canolig | 3.3% | 0.8% | 0.4% | 0.4% | 0.8% | 0.4% | 0.4% | | | | |
| | Busnes Bach | 19.3% | 5.7% | 2.9% | 4.5% | 2.9% | 1.2% | 1.2% | 0.8% | | | |
| | Microfusnes | 47.5% | 13.1% | 10.2% | 7.0% | 7.4% | 3.3% | 3.3% | 2.0% | | 0.8% | 0.4% |
| Unig Fasnachwr | Unig Fasnach.. | 29.1% | 10.2% | 4.1% | 5.3% | 1.2% | 1.6% | 1.6% | 0.8% | 2.5% | 1.2% | 0.4% |
| Cyfanswm | | 100.0% | 30.3% | 17.6% | 17.2% | 12.3% | 6.6% | 6.6% | 3.7% | 2.5% | 2.0% | 1.2% |


**Tabl 1: Dosbarthiadau enghreifftiol o ymatebwyr i'r arolwg.**

Mae'r ymatebion yn adlewyrchu'n fras grynodiad y cwmnïau yng Nghaerdydd a ledled Dinas-Ranbarth Caerdydd ac ymysg sectorau'r diwydiannau creadigol (gweler Tabl 1).

# Canfyddiadau

## Pa mor bryderus yw busnesau creadigol yng Nghymru am Brexit?

**Gwelsom fod lefelau uchel o bryder am effaith bosibl Brexit ymysg busnesau creadigol yng Nghymru,** gyda phedwar allan o bob pump busnes creadigol yn mynegi pryderon. O'r rhain, mynegodd chwarter ohonynt bryderon cryf iawn, gan nodi y gallai Brexit fod yn 'drychineb' i'w busnes. Dim ond 4% a oedd o'r farn y gallai Brexit gael *unrhyw* effaith gadarnhaol ar eu helw – ac mae gan y rhan fwyaf o'r grŵp hwn bryderon o hyd. Dim ond 0.8% – cyfran fechan – a oedd yn gweld Brexit fel datblygiad cadarnhaol.




**Ffigur 1: Lefelau o bryder mewn perthynas â Brexit ymysg busnesau creadigol yng Nghymru.**

Mae pryderon ynghylch Brexit yn gyson ledled Cymru, a chawsant eu mynegi ni waeth beth fo maint y cwmni. Ymysg y sectorau creadigol gwahanol, **mynegwyd y lefel uchaf o bryder yn nau sector creadigol mwyaf Cymru:** y sector ffilm/teledu sy'n ffynnu (lle y gwnaeth 87% fynegi pryderon) a'r sector cerddoriaeth a chelfyddydau perfformio (lle y gwnaeth 83% fynegi pryderon).

**HYNOD BRYDERUS**

“Rydyn ni’n hynod o bryderus am Brexit.” “Bydd Brexit yn drychineb.”
“Bydd hi’n cymryd degawdau i ni oresgyn hyn.” Mae Brexit yn bryder enfawr.”

**PRYDERUS**

“Dwi’n bryderus...” “Bydd Brexit bendant yn cael effaith negyddol ar fy ngwaith.”
“Rydyn ni’n bryderus am Brexit.” “Nid ydw i’n credo bod Brexit yn syniad da.”

**EITHAF PRYDERUS**

“Nid yw Brexit yn effeithio arnom ni’n uniongyrchol, ond......”
“Nid ydw i’n bryderus iawn ar hyn o bryd.” “Mae’r effaith yn ddibynnol ar y cleient.”

**NIWTRAL**

“Nid yw Brexit yn effeithio arnom ni.” “Nid yw fy musnes yn bryderus am Brexit.”
“Nid ydyn ni wedi gweld unrhyw effaith hyd yn hyn ac nid ydyn ni’n disgwyl unrhyw broblemau...”

**POSITIF**

“Rydyn ni’n bositif am fanteision posib yn y dyfodol o ganlyniad i Brexit.”
“Yr un canlyniad positif posib byddai...” “Mi wnawn ni wario mwy...” “Rydyn ni’n cefnogi Brexit...”

Mae **4 allan o bob 5** busnes creadigol (80.3%) yn pryderu am effaith Brexit.

Mae **1 allan o bob 5** busnes (20.1%) yn bryderus iawn,

Mae **15%** o fusnesau yn niwtral am effaith Brexit.

Roedd **4%** o fusnesau yn gallu gweld rhywfaint o effeithiau cadarnhaol posibl Brexit.

Mae **0.8%** yn hollol gadarnhaol am effaith Brexit ar eu busnes.

Mae **87%** o fusnesau ffilm, teledu, fideo a ffotograffiaeth,

**83%** o fusnesau cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol,

**75%** o fusnesau cyhoeddi (e.e. papur newydd, cyfnodolion),


**70%** o fusnesau TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol, a

**60%** o fusnesau hysbysebu a marchnata...

...yng Nghymru yn pryderu am effaith Brexit (o gymharu â chyfartaledd o lefel pryder o 80% ymysg busnesau creadigol yng Nghymru).

## Mae 20% o fusnesau yng Nghymru eisoes wedi profi effaith Brexit.

Mae'r effeithiau hyn a nodwyd yn cynnwys gostyngiad mewn prosiectau ac archebion ers 2016 (oherwydd ansicrwydd Brexit), paratoadau ar gyfer datrys cytundebau a rhwydweithiau presennol yr UE, a chost uwch deunyddiau, cynhyrchion a gwasanaethau (oherwydd gostyngiad yng ngwerth y bunt).




**Ffigur 2 Effaith Brexit ar fusnesau creadigol Cymru hyd yma.**

MAE BREXIT EISOES WEDI ARWAIN AT YR EFFEITHIAU CANLYNOL:

### 1. GOSTYNGIAD MEWN BUSNES

Mae hyn yn cynnwys gostyngiad yn nifer y prosiectau, archebion ac ati, a llai o barodrwydd i wario arian gan ddefnyddwyr a chwmnïau.

### 2. NEWIDIADAU MEWN STRATEGAETHAU BUSNESAU

Mae busnesau creadigol eisoes yn ceisio lleihau dibyniaeth ar farchnadoedd Ewropeaidd, gan dorri costau gorbenion neu symud at drefniadau cyflenwi mwy hyblyg. Mae rhai busnesau wedi gadael rhwydweithiau Ewropeaidd yn barod ac yn ceisio datblygu strategaethau marchnata newydd er mwyn sicrhau mwy o amrywiaeth ymysg eu cleientiaid.

### 3. COSTAU UWCH

Mae busnesau creadigol yng Nghymru yn profi costau uwch ar gyfer gwasanaethau / cynhyrchion a deunyddiau wedi'u mewnforio oherwydd gostyngiad yng ngwerth y bunt.

### 4. HAWLIO DINASYDDIAETH DDEUOL (GWYDDELIG)

Mae nifer o weithwyr llawrydd wedi hawlio dinasyddiaeth ddeuol er mwyn cadw eu rhyddid i symud yn yr UE ar ôl Brexit.

## DANGOSODD YR YMATEBION FOD GAN BOBL YN Y DIWYDIANNAU CREADIGOL DEIMLADAU CRYF AM BREXIT. MAE DADANSODDIAD O DEIMLADAU YN DANGOS BOD EU SYLWADAU WEDI'U RHANNU'N GYFARTAL YN YMATEBION "GODDRYCHOL" A "GWRTHRYCHOL".

"Mae fy meddyliau'n bersonol..."

"Mae gennyf bryderon mawr am yr effaith economaidd..."

"Rwy'n casáu Brexit..."

"....bydd effaith ar werthiannau i diriogaeth Ewropeaidd."


"Mae Brexit yn dorcalonnus i mi."

"Wedi dychryn!"

"Gellid cael effaith gadarnhaol o bosibl..."

## Pa effeithiau y mae busnesau yn eu hofni yn y dyfodol?

**Mae gan fusnesau creadigol bryderon sy'n amrywio o newidiadau strwythurol ac economaidd eang i'r problemau beunyddiol ymarferol y gall Brexit eu creu.**




**Ffigur 3: Prif feysydd effaith (bosibl) Brexit ar fusnesau creadigol yng Nghymru.**

BYDD BREXIT YN EFFEITHIO AR Y CANLYNOL O BOSIBL:

### 1. BUSNES A'R ECONOMI

Mae busnesau yn poeni y byddai Brexit yn arwain at dwf economaidd arafach yn y DU, a llai o wariant gan ddefnyddwyr a chleientiaid.   Mae nifer o fusnesau hefyd yn poeni am y posibilrwydd y bydd newidiadau i brisiau, costau uwch a chynnydd mewn biwrocratiaeth yn ymwneud â masnachu, yn enwedig os na fydd y DU yn parhau i gydymffurfio'n rheoliadol â'r UE mwyach.   Mae pryder hefyd y bydd cleientiaid sydd â chysylltiadau Ewropeaidd cryf yn gadael y DU.

### 2.  SYMUDEDD

Mae busnesau creadigol yn poeni y bydd atal rhyddid i symud yn golygu cynnydd mewn biwrocratiaeth o ran trefniadau teithio rhwng y DU a'r UE (felly, er enghraifft, yn ei gwneud yn anoddach i drefnu artistiaid, neu gynyddu'r baich ar gydweithrediadau presennol â phartneriaid yr UE neu gydweithrediadau yn y dyfodol).

### 3. MARCHNAD LAFUR

Bydd unrhyw gyfyngiadau ar symudiadau llafur yn ei gwneud yn anoddach i ddenu talent o'r UE, ac yn rhoi beichiau ar gydweithrediadau â phartneriaid yn yr UE yn y dyfodol.

### 4. ENW DA A MYNEDIAD AT GYLLID

Mae nifer o fusnesau yn poeni y bydd Brexit yn cael effaith negyddol ar eu henw da o ran cydweithredu'n rhyngweithiol ag Ewrop, ac y byddant yn colli mynediad at ffrydiau cyllid yr UE.

# CASGLIAD AC ARGYMHELLION

Mae ein hastudiaeth yn dangos bod gan y rhan fwyaf o fusnesau creadigol yng Nghymru bryderon sylweddol am Brexit. Mae Cymru'n arbennig o ddibynnol ar fasnachu â'r UE a chyllid yr UE – yn fwy nag unrhyw wlad neu ranbarth arall yn y DU – ac felly gall y diwydiannau creadigol yng Nghymru deimlo'n arbennig o fregus. Ond mae'n fwy tebygol y bydd diwydiannau creadigol ledled y DU yn fwy ofnus ynglŷn â Brexit – yn enwedig yn dilyn y sioc economaidd a achoswyd gan COVID-19.

Mae angen i'r pryderon hyn lywio'r math o gytundeb y bydd y DU yn ei wneud â'r UE. Mae'r arolwg hwn yn cyfeirio at broblemau posibl i'r diwydiannau creadigol sy'n real ac yn weladwy. Gan fod y diwydiannau creadigol yn rhan fwyfwy llwyddiannus a chadarn o economi Cymru a'r DU yn ehangach, mae angen cymryd y problemau hyn o ddifrif.

## Argymhellion ar gyfer Llywodraeth y DU

Mae dibyniaeth benodol economi Cymru ar farchnadoedd a chyllid yr UE yn golygu y gall y lefelau o bryder a ddangosodd ein harolwg fod yn uwch nag mewn rhanbarthau eraill o'r DU. Fodd bynnag, gan fod cwmnïau creadigol ledled y DU yn rhannu nifer o'r un nodweddion a amlygwyd gan ein harolwg, mae'n debygol y bydd cwmnïau creadigol ledled y DU yn rhannu pryderon ynglŷn â Brexit yn gyffredinol, yn enwedig yn y sectorau ffilm a theledu, cerddoriaeth a'r celfyddydau perfformio, lle mae pryderon ar eu huchaf. . Yn y trafodaethau sydd i ddod, hoffai cwmnïau creadigol weld y canlynol gan Lywodraeth y DU:

1. CADW'R RHYDDID I SYMUD, CYMAINT Â PHOSIBL, ER MWYN CYNNAL SYMUDEDD TALENT
2. AELODAETH GYSWLLT (NEU AELODAETH GYFATEBOL) FEL Y GALL CWMNÏAU'R DU GAEL MYNEDIAD AT GYNLLUNIAU CYLLID YR UE.
3. CYDYMFFURFIO MOR AGOS Â PHOSIBL Â'R UE I LEIHAU RHWYSTRAU MASNACHU.

4. LLYWODRAETH Y DU I GYFLENWI FFYNONELLAU O GYLLID YR UE A GOLLWYD

## Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

Gall Llywodraeth Cymru geisio lleihau rhai o'r problemau a ddaw o bosibl, er bod nifer o'i hopsiynau yn dibynnu ar barodrwydd Llywodraeth y DU i wrando ar weinyddiaethau datganoledig, a chytuno ar gytundeb â'r UE nad yw'n rhwystro twf sectorau mwyaf llwyddiannus Cymru.  Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

1. PARHAU I LOBÏO LLYWODRAETH Y DU AR RAN DIWYDIANNAU CREADIGOL CYMRU, O RAN CYDYMFFURFIAETH REOLIADOL A CHYFLEOEDD I GAEL CYLLID A GOLLWYD
2. LLE Y BO'N BOSIBL, CADW CYSYLLTIADAU Â RHAGLENNI'R UE A ALL FOD AR GAEL O HYD I WLADWRIAETHAU NAD YDYNT YN AELODAU O'R UE, A RHANNU CYFLEOEDD Â BUSNESAU CREADIGOL

## Argymhellion i fusnesau creadigol yng Nghymru

Er bod y cysylltiadau â'r UE yn y dyfodol yn aneglur o hyd, mae gwrthodiad arfaethedig rhaglen Ewrop Greadigol yn y papur  gweledigaeth ar gyfer trafodaethau Brexit yn ei gwneud yn glir bod angen i fusnesau creadigol baratoi ar gyfer y senarios gwaethaf posibl.  Mae hyn yn golygu bod angen gwneud y canlynol:

1. MEITHRIN YMDDIRIEDAETH Â PHARTNERIAID A CHLEIENTIAID YN EWROP ER MWYN CYNNAL CYDBERTHNASAU
2. AMRYWIO'R GRONFA CLEIENTIAID A'R CADWYNI CYFLENWI – ER ENGHRAIFFT, RHAGWELD CYNNYDD MEWN COSTAU AR GYFER GWASANAETHAU A CHYNHYRCHION EWROPEAIDD A, LLE Y BO'N BOSIBL, CHWILIO AM GYFLENWYR LLEOL
3. BOD YN YMWYBODOL O RAGLENNI'R UE A ALL FOD AR GAEL O HYD I WLADWRIAETHAU NAD YDYNT YN AELODAU O'R UE



## Tîm ymchwil

Dr. Marlen Komorowski

Dadansoddwr Effaith ym Mhrifysgol Caerdydd ac Uwch-ymchwilydd yn imec-SMIT-VUB (Vrije Universiteit Brussel) - komorowskim@cardiff.ac.uk

Yr Athro Justin Lewis

Cyfarwyddwr Clwstwr ac Athro Cyfathrebu a'r Diwydiannau Creadigol, Prifysgol Caerdydd

## Cydnabyddiaeth

Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn gyda chymorth ariannol gan AHRC a Llywodraeth Cymru. Yr awduron sy'n gyfrifol am ei gynnwys.

© 2020 Clwstwr, rhaglen ym Mhrifysgol Caerdydd Cedwir pob hawl.

## Dyfyniad awgrymedig

Komorowski, M. a Lewis, J. (2020). Briff polisi Clwstwr rhif 1 – effaith (bosibl) Brexit ar fusnesau creadigol: goblygiadau ar gyfer polisïau a busnesau yng Nghymru. Cyfres cyhoeddiadau Clwstwr, Caerdydd, Clwstwr.